

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 1: Mynd i'r afael â galw heb ei fodloni posibl am ofal plant |                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                |                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|---------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                           | Mater                                                                                                              | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Pwy                                                                                                                            | Amserlenni                                                                                        | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| 1.1                                                                       | Gostyngiad yn y nifer o warchodwyr plant sy'n gweithio, gyda bylchau nodedig yn ardaloedd CF32, CF34, CF36 a CF39. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Deunyddiau ymgyrch wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu i ddenu pobl newydd i ystyried gwarchod plant fel gyrfa.</li> <li>Cynllunio, hysbysebu a chynnal sesiwn frifio a digwyddiadau hyrwyddo mewn mannau cymunedol a ffeiriau gyrfaedd.</li> <li>Holi gwarchodwyr plant sydd wedi dadgofrestru i weld beth fyddai'n eu temtio yn ôl i'r proffesiwn.</li> <li>Sicrhau bod rhaglen o ddatblygu proffesiynol hygyrch o ansawdd uchel ar gael i warchodwyr plant cofrestredig.</li> <li>Trafod ag asiantaethau partner fel PACEY a Llywodraeth Cymru i lywio ymhellach y strategaeth recriwtio a chadw ar lefel leol a chenedlaethol.</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 - 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2023</p>    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Y gostyngiad yn niferoedd gwarchodwyr plant yn cael ei atal.</li> <li>Nifer cyffredinol y gwarchodwyr plant yn y sir yn cynyddu 10%.</li> <li>Teuluoedd ym mhob ardal yn gallu manteisio ar wasanaethau gwarchodwr plant lleol o ansawdd uchel.</li> <li>Gwelliannau mewn argaeledd grantiau, gofal plant a ariennir a datblygu'r gweithlu'n cefnogi'r broses o recriwtio a chadw unigolion yn y proffesiwn.</li> </ul>                                                                                                       |
| 1.2                                                                       | Adborth gan rieni'n dangos diffyg mewn gofal cofleidiol / ar ôl ysgol mewn rhai ardaloedd.                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod ag ysgolion i ymchwilio i faint y diffygion.</li> <li>Ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr gofal cofleidiol i ddeall y rhwystrau sy'n atal datblygiad darpariaeth ar ôl ysgol ar hyn o bryd mewn ardaloedd lle mae yna alw heb ei fodloni.</li> <li>Ymgysylltu â chlystyrau ysgolion a darparwyr gofal cofleidiol i archwilio opsiynau ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal ar ôl ysgol cynaliadwy.</li> <li>Adolygu beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r sector mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru.</li> <li>Gweithio gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i amlygu heriau yn y</li> </ul>                                      | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p>                                                  | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 - parhaus</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darlun clir yn ymddangos o unrhyw leoliadau daearyddol lle mae yna alw heb ei fodloni am ofal ar ôl ysgol.</li> <li>Y wybodaeth hon yn ein galluogi i gael trafodaeth ag ysgolion, darparwyr gofal y tu allan i ysgolion a gwarchodwyr plant am hyfywedd cynnig y gwasanaeth hwn.</li> <li>Clybiau ar ôl ysgol ar gael yn yr ardaloedd daearyddol lle maent eu hangen</li> <li>Mewn ardaloedd lle mae llai o alw, gwarchodwyr plant / gwasanaeth casglu meithrinfa yn cael eu recriwtio i gynnig y gwasanaeth hwn.</li> </ul> |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 1: Mynd i'r afael â galw heb ei fodloni posibl am ofal plant |                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                |                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|---------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                           | Mater                                                                                                                                                                                                                | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Pwy                                                                                                                            | Amserlen                                                                                                             | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|                                                                           |                                                                                                                                                                                                                      | sector ac archwilio posibiliadau ar gyfer cyllid a chymorthdaliadau gwell.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                |                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| 1.3                                                                       | Mae rhestrau aros ac adborth gan rieni yn dangos bwlch posibl mewn opsiynau gofal plant priodol yn ystod gwyliau'r ysgol, yn enwedig ar gyfer plant ychydig yn hŷn (CA2/CA3) ac yn enwedig yn ardaloedd CF31 a CF35. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwilio i hyn ymhellach drwy gysylltu â phob darpariaeth gwyliau cyfredol i weld oedrannau'r plant sy'n mynychu.</li> <li>Dadansoddi'r wybodaeth hon i weld a oes unrhyw batrymau o ran ble mae plant iau a hŷn yn cael eu lleoli.</li> <li>Cynnal arolwg rhieni ychwanegol (drwy'r ysgolion?) i archwilio eu barn nad oes digon o opsiynau gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.</li> <li>Adolygu beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r sector mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru.</li> <li>Ymgysylltu ag ysgolion i archwilio'r posiblirwydd o gynnal clybiau gwyliau ar safle.</li> <li>Ymgysylltu â darparwyr arbenigol (e.e. ymarferwyr ysgolion coedwig, clybiau chwaraeon ac ati gyda golwg ar ddatblygu gofal gwyliau a allai apelio'n fwy at rieni plant hŷn).</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – parhaus</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 - 2023</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darlun clir yn ymddangos o oedran y plant sy'n defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.</li> <li>Arolwg rhieni'n darparu adborth am y rhwystrau i ddod o hyd i ofal plant priodol yn ystod gwyliau'r ysgol sydd wedi'u profi yn ein cymuned.</li> <li>Unrhyw alw heb ei fodloni wedi'i nodi.</li> <li>Ymgysylltu â phartneriaid lleol yn arwain at ddatblygu darpariaeth gofal gwyliau ychwanegol.</li> </ul> |
| 1.4                                                                       | Gallai datblygiadau tai newydd roi pwysau ar ddarpariaethau gofal plant cyfredol yn yr ardaloedd canlynol: Tondy (CF32) Coety (CF31/35) Maesteg (CF34).                                                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu'n rheolaidd â darpariaethau gofal plant cyfredol yn yr ardaloedd hyn i fonitro effaith datblygiadau tai ar argaeledd gofal plant.</li> <li>Datblygu cysylltiadau gwell â'r adran gynllunio i amlygu effaith unrhyw benderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ar ofal plant ac i negodi ychwanegu</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p>                                                  | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2024</p>                                                                                | <ul style="list-style-type: none"> <li>Y Tîm Gofal Plant yn gwybod am y cynlluniau datblygu tai ledled y sir ac yn gallu cyfathrebu'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith debygol penderfyniadau cynllunio.</li> <li>Perthynas waith gadarnhaol â chynllunwyr a datblygwyr yn cefnogi ehangu darpariaeth gofal plant mewn</li> </ul>                                                                                                                           |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 1: Mynd i'r afael â galw heb ei fodloni posibl am ofal plant |                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                        |                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|---------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                           | Mater                                                                                                                                                                | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Pwy                                                                    | Amserlenni                                                           | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|                                                                           |                                                                                                                                                                      | adeiladau ar gyfer darparu gofal plant lle mae yna alw mawr amdano. <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi darparwyr cyfredol i ehangu os oes mwy o alw.</li> <li>Rhannu llenyddiaeth recriwtio gwarchodwyr plant drwy gymdeithasau tai a swyddfeydd gwerthu i dargedu tenantiaid a phernogion tai newydd.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Swyddogion Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd                           | 2022 – 2025<br><br>2022 - 2023                                       | ardaloedd lle mae datblygiadau newydd yn creu galw. <ul style="list-style-type: none"> <li>Digon o lefydd gofal plant i fodloni galw mewn ardaloedd lle mae datblygiad tai newydd yn cael ei godi.</li> </ul>                                                                                                                                        |
| 1.5                                                                       | Ychydig iawn o ddarpariaethau gofal plant sydd yn yr ardaloedd canlynol: CF32 CF39.                                                                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweld a oes digon o alw am ddarpariaeth gofal plant yn yr ardaloedd a nodwyd drwy gynnal arolygon rhieni a gweithwyr wedi'u targedu.</li> <li>Dadansoddi canlyniadau'r arolygon i weld lefelau galw ac a yw hyn yn ddigon i'w gwneud hi'n gynaliadwy i ddarparwr gofal plant weithredu.</li> <li>Pan fo digon o alw, gweld pa fath o ddarparwyr sydd yn y sefyllfa orau i weithredu ym mhob ardal.</li> <li>Cymryd camau gweithredu pellach fel y bo'n briodol (e.e. recriwtio gwarchodwyr plant, nodi safleoedd addas ar gyfer meithrinfa ddydd, gwneud cais am grantiau cyfalaf ac ati).</li> </ul> | Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain<br><br>Swyddogion y Tîm Gofal Plant | 2022 – 2023<br><br>2022 – 2023<br><br>2022 – 2024<br><br>2022 - 2024 | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darlun cyfredol clir yn datblygu yn dangos lefelau galw cyfredol am ofal plant mewn lleoliadau sydd heb fawr ddim neu ddim darpariaeth ar hyn o bryd.</li> <li>Llunio strategaeth, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwilio, ar gyfer pob ardal ddaearyddol lle mae yna alw heb ei fodloni.</li> </ul> |
| 1.6                                                                       | Mae yna alw bychan, ond cynyddol, am ofal plant yn ystod oriau annodweddiadol (h.y. cyn 7am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnos) i gefnogi patrymau gwaith rhieni. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal arolwg rhieni wedi'i dargedu drwy gyflogwyr lleol sy'n gweithredu y tu allan i oriau gofal plant nodweddiadol (ysbytai, yr heddlu, lletygarwch, ffatrioedd ac ati) i gasglu mwy o wybodaeth am y galw am ddarpariaeth annodweddiadol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain<br><br>Swyddogion y Tîm Gofal Plant | 2022 – 2023<br><br><br><br><br><br><br>2022 – 2024                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Y gwaith ymchwilio'n dangos faint o alw sydd am ofal plant annodweddiadol.</li> <li>Pan fo galw, y tîm gofal plant yn llwyddo i nodi darparwyr sy'n barod ac yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn.</li> </ul>                                                                                                    |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 1: Mynd i'r afael â galw heb ei fodloni posibl am ofal plant |       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                           |                                |                     |
|---------------------------------------------------------------------------|-------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|--------------------------------|---------------------|
|                                                                           | Mater | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Pwy                                       | Amserlenni                     | Canlyniadau Dymunol |
|                                                                           |       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Annog gwarchodwyr plant newydd a chyfredol i ystyried cynnig hyblygrwydd ychwanegol.</li> <li>Cefnogi gwarchodwyr plant sy'n cynnig oriau annodweddiadol gyda marchnata i sicrhau bod rhieni'n gwybod am y gwasanaeth hwn.</li> <li>Yn unol â galw tebygol, datblygu strategaeth hirdymor i gynnal lefel briodol o ddarpariaeth annodweddiadol.</li> </ul> | Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | 2022 – 2024<br><br>2022 - 2025 |                     |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 2: Sicrhau bod y sector yn gallu bodloni'r galw cynyddol am lefydd yn sgil cyflwyno gofal plant i bob plentyn dwy flwydd oed. |                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                            |                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                            | Mater                                                                                                        | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Pwy                                                                                                                                                                        | Amserlenni                                                                  | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| 2.1                                                                                                                                        | Gall cynnydd sydyn mewn galw am lefydd olygu nad oes digon o lefydd i gynnig lle i bob plentyn cymwys.       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio gwybodaeth sydd ar gael i ragweld nifer y plant a fydd angen lle fel rhan o'r ehangu.</li> <li>Cwblhau archwiliad o ddarpariaethau gofal plant i weld nifer y lefydd gwag ar gyfer plant 2 oed.</li> <li>Nodi darparwyr gofal plant addas yn gynnwys a dechrau trafodaethau am bosibiliadau comisiynu.</li> <li>Os oes angen, datblygu cynllun rhaglen gyfalaf strategol mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg i ddatblygu darpariaeth newydd / ymestyn darpariaeth gyfredol i gefnogi cynnydd mewn galw.</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Mewn partneriaeth â Rheolwr Gweithredol Dechrau'n Deg</p> <p>Rheolwr y Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant i oruchwylio</p> | <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 - 2025</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad o holl ddarparwyr gofal sir Pen-y-bont ar Ogwr yn penderfynu pwy allai fod yn addas i gynnig llefydd i blant 2 oed cymwys newydd.</li> <li>Mwyafrif y darparwyr gofal plant cyfredol yn cofrestru i fod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg cofrestredig ac yn gallu bodloni'r safonau gofynnol.</li> <li>Pe bai angen rhagor o lefydd, y tîm gofal plant yn gwneud defnydd priodol o gyllid cyfalaf i gefnogi darparwyr cyfredol i ehangu a darparwyr newydd i sefydlu.</li> <li>Pob plentyn 2 oed yn cael cynnig lle gofal plant o fewn amserlenni a ddiffiniwyd.</li> </ul> |
| 2.2                                                                                                                                        | Gallai rhai lleoliadau fod yn amharod i gofrestru fel lleoliadau 'Dechrau'n Deg' a cholli plant o ganlyniad. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi dewisiadau lleoliadau gofal plant, gan hyrwyddo manteision darparu gofal plant a ariennir i blant 2 oed yr un pryd.</li> <li>Sicrhau a chefnogi'r rhai sydd â phryderon am fanteision cynnig darpariaeth wedi'i ariannu i blant 2 oed.</li> <li>I'r rhai sy'n dewis peidio â darparu gofal plant i blant 2 oed, cymorth parhaus gan y tîm i gefnogi cynaliadwyedd a mynediad i hyfforddiant.</li> </ul>                                                                                                            | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p>                                                                                              | <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2024</p>                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu â phob darparwr cyfredol a chynnal cyfarfod i dynnu sylw at y cyfle ac i'r darparwyr gael gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.</li> <li>Mwyafrif y darparwyr gofal plant yn cofrestru i fod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg cofrestredig.</li> <li>Rhoi cymorth, lle bo'n briodol, i gefnogi cynaliadwyedd darparwyr sy'n methu â chofrestru.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                  |
| 2.3                                                                                                                                        | Angen cefnogi lleoliadau, yn cynnwys y sector gwarcheidwaid plant, i fabwysiadu                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu llenyddiaeth i amlygu disgwyliadau am ymarfer o ansawdd ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain                                                                                                                                         | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2024</p>                                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda i wneud addasiadau i'w polisi, darpariaeth ac ymarfer yn</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 2: Sicrhau bod y sector yn gallu bodloni'r galw cynyddol am lefydd yn sgil cyflwyno gofal plant i bob plentyn dwy flwydd oed. |                                                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                               |                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                                            | Mater                                                                                      | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Pwy                                                                                                                                           | Amserlenni                                                       | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|                                                                                                                                            | safonau 'Dechrau'n Deg' yn barod ar gyfer cyflwyno gofal plant i bob plentyn 2 flwydd oed. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynnig pecyn hyfforddiant cynhwysfawr / grant i godi cymwysterau lle bo angen.</li> <li>Cynnig pecyn cymorth, cynghorol ac ariannol, i gefnogi lleoliadau i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.</li> </ul>                 | <p>Rheolwr Gweithredol Dechrau'n Deg mewn partneriaeth</p> <p>Llywodraeth Cymru i gefnogi goblygiadau ariannol</p>                            | 2022 - 2025                                                      | <p>barod i dderbyn plant 2 oed sydd wedi'u hariannu.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ansawdd cyson ar draws y sector blynyddoedd cynnar.</li> <li>Gofal plant cynaliadwy ar gael i blant 2 oed ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.</li> </ul>                              |
| 2.4                                                                                                                                        | Penderfyniadau am wariant cyfalaf.                                                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu gweithgor i ddatblygu cynllun strategol i ategu rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cymru</li> <li>Sicrhau bod adolygiadau blynyddol Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau strategol ar gyfer datblygiadau cyfalaf</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i arwain</p> <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant a Rheolwr Gweithredol Dechrau'n Deg i gefnogi</p> | <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> <p>2022 – 2023 ac yn flynyddol</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu gofal plant strategol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gofal plant a ariennir i blant 2 oed, a llenwi'r bylchau a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.</li> <li>Cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio gyda mwy o opsiynau gofal plant.</li> </ul> |
| 2.5                                                                                                                                        | Recriwtio a chadw staff gofal plant.                                                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i fynychu gweithdai a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru am yr heriau parhaus</li> <li>Datblygu cynllun datblygu gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar</li> </ul>                                                                                  | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant</p> <p>Rheolwr y Tîm Blynyddoedd</p>                                                                             | <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2024</p>                            | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynrychiolaeth gan y Cyngor ar bob gweithgor cenedlaethol perthnasol.</li> <li>Strategaeth gynhwysfawr ar gyfer tyfu a datblygu'r gweithlu lleol, yn seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth leol a strategaeth genedlaethol.</li> </ul>                             |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                          | Mater                                                               | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Pwy                                | Amserlenni                                                          | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|                                                                                                                          |                                                                     | <p>cynnydd yn erbyn targedau, fel y gellir addasu pecynnau cymorth fel bo angen.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ymwybyddiaeth o dueddiadau cyflwyno ac ymgynghori â Llywodraeth Cymru i sicrhau lefelau priodol o gyllid i ddiwallu anghenion ADY plant y Blynnyddoedd Cynnar ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddogion y Tîm Gofal Plant       | 2022 - 2023                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| 4.5                                                                                                                      | Ystyriaeth bellach o'r angen am ddarpariaeth gofal plant arbenigol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori â rhieni plant ag anghenion mwy cymhleth ynghylch eu profiad o sicrhau gofal dydd, gofal ar ôl ysgol a gofal gwyliau.</li> <li>Gweld beth yw'r angen am wasanaethau o'r fath i gefnogi rhieni plant ag anghenion cymhleth i ddychwelyd i'r gwaith os ydynt am wneud hynny.</li> <li>Cynnal dadansoddiad o gost darparu lle i blentyn ag anghenion cymhleth.</li> <li>Pan nodir bod angen, ymgynghori â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru gyda golwg ar sicrhau cyllid digonol i dalu am gost darparu llefydd mewn lleoliadau gofal plant neu gyda gwarchodwyr plant.</li> </ul> | Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2024 a pharhaus</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dealltwriaeth gliriach o'r graddau y mae angen y ddarpariaeth hon.</li> <li>Pan fo angen, ffrwd gyllido addas i ariannu llefydd yn cael ei nodi.</li> <li>Darparwyr addas wedi'u nodi.</li> <li>Rhieni plant ag anghenion cymhleth yn gallu dychwelyd i weithio os ydynt yn dymuno.</li> </ul> |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 5: Gwella mynediad at wybodaeth ac ansawdd y wybodaeth honno ar gyfer teuluoedd |                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                |                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                              | Mater                                                                                                                                        | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Pwy                                                                                                                            | Amserlenni                                                                  | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| 5.1                                                                                          | Gwybodaeth gyfredol ar gael.                                                                                                                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Recriwtio Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y maes gwaith hwn, yn cynnwys gwelliannau i'r wefan, a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol.</li> <li>• Ailddechrau disgwyliad i bob lleoliad cofrestredig gofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a chadw eu cyfrifon yn gyfredol.</li> <li>• Ailsefydlu presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol lle gellir hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a rhannu gwybodaeth mewn copi papur i'r rhai sy'n ffafrio hynny.</li> <li>• Sicrhau bod y llinell wybodaeth gofal plant yn cael ei staffio yn ystod oriau swyddfa.</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 - 2023</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Teuluoedd yn ymwybodol o wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fel y pwynt cyntaf ar gyfer gwybodaeth.</li> <li>- Yr holl asiantaethau partner yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am ddatblygiadau, newidiadau ac ychwanegiadau i'w gwasanaeth.</li> <li>- Y Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gwneud newidiadau amserol i wefan y Gwasanaeth i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.</li> <li>- Yn ogystal â'r wefan, mae dulliau eraill o gyfathrebu gwybodaeth yn cael eu defnyddio llawer (copïau caled, digwyddiadau wyneb yn wyneb, llinell gymorth).</li> <li>- Adborth yn awgrymu bod mwyafrif llethol y defnyddwyr yn dod o hyd i'r wybodaeth maent yn chwilio amdani ar y wefan.</li> </ul> |
| 5.2                                                                                          | Mae'r amrywiaeth o opsiynau a llwybrau gofal plant yn gymhleth a llawer o rieni'n dweud eu bod yn cael anhawster deall y wybodaeth gyfredol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu cyfres o ffeithluniau hawdd i'w deall i ddangos ac esbonio'r dewisiadau gofal plant sydd ar gael i deuluoedd ar wahanol adegau.</li> <li>• Profi ansawdd y wybodaeth gyda defnyddwyr yn y gymuned a defnyddio eu hadborth i wella ansawdd y wybodaeth.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Swyddogion Tîm Gofal Plant</p>                                             | <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2023</p>                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Set wedi'i chynllunio'n dda o adnoddau'n esbonio gwahanol opsiynau a llwybrau gofal plant.</li> <li>- Defnyddwyr yn darparu adborth bod y wybodaeth yn glir, yn rhydd o jargon ac wedi'u helpu i ddeall eu hopsiynau ac i wneud y dewis gorau ar gyfer amgylchiadau eu teulu.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |



Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 5: Gwella mynediad at wybodaeth ac ansawdd y wybodaeth honno ar gyfer teuluoedd |                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                       |                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                              | Mater                                                                     | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Pwy                                                                                                                   | Amserlenni                                                                                        | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|                                                                                              |                                                                           | <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu sesiynau galw heibio rheolaidd mewn hybiau cymunedol lle mae aelodau o'r tîm gofal plant yn gallu ateb cwestiynau a chefnogi teuluoedd gyda cheisiadau gofal plant.</li> <li>Sicrhau bod ymarferwyr mewn lleoliadau'n deall y gwahanol opsiynau fel eu bod yn gallu ateb unrhyw ymholiadau sydd gan rieni.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                       | 2022 - 2024                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| 5.3                                                                                          | Cyfran fawr o deuluoedd yn mynegi pryderon am fforddiadwyedd gofal plant. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a thaflenni copi caled yn nodi manteision ariannol y Cynnig Gofal Plant.</li> <li>Annog a chefnogi lleoliadau i sefydlu systemau i dderbyn talebau gofal plant o weithleoedd y rhieni.</li> <li>Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth gyda gofal plant yn cael ei diweddarau a'i bod yn gyfredol ar y wefan.</li> <li>Trefnu sesiynau galw heibio rheolaidd mewn hybiau cymunedol lle mae aelodau'r tîm gofal plant ar gael i ateb ymholiadau am gost gofal plant a chynnig cyfeiriadau priodol at ffynonellau cymorth.</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant</p> <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Adran bwrpasol ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cyflwyno'r opsiynau gwahanol yn glir i deuluoedd a all eu helpu gyda chost gofal plant.</li> <li>- Asiantaethau partner yn cefnogi teuluoedd i gyfeirio'r wybodaeth hon a'r lleoliadau gwybodaeth galw heibio.</li> <li>- Mwy o leoliadau'n cofrestru i dderbyn talebau gofal plant.</li> </ul> |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 6: Cymorth ar gyfer y sector a datblygu'r gweithlu |                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                           |                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-----------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                 | Mater                                                                                                                                                    | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Pwy                                                                                                                                                                       | Amserlenni                                                                            | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                  |
| 6.1                                                             | Ansicrwydd ar hyn o bryd am gynlluniau cenedlaethol ar gyfer datblygu'r gweithlu ar draws y sector.                                                      | <ul style="list-style-type: none"> <li>Chwilio am gyfleoedd i barhau i fod yn rhan o weithgorau datblygu'r gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n bodoli i lywio polisi ac ymarfer y dyfodol.</li> <li>Cyflwyno heriau ac anghenion lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr ar lefel genedlaethol a chynnig awgrymiadau ac atebion posibl.</li> <li>Dyfeisio strategaeth gweithlu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Lleol, mewn da bryd, yn seiliedig ar drafodaethau a gafwyd ar lefel genedlaethol.</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion Cymorth y Cyfnod Sylfaen</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> <p>2022 – 2024</p>                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun datblygu'r gweithlu lleol cadarn ac ystyrion wedi'i ddatblygu i arwain yr agwedd hon ar waith y Tîm Gofal Plant i gefnogi'r sector.</li> </ul>                                                                        |
| 6.2                                                             | Mae'r hinsawdd ariannol gyfredol yn achosi caledi ariannol i'r sector gofal plant ac wedi gwneud darparwyr yn ofalus am fanteisio ar gyfleoedd i ehangu. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynorthwyo lleoliadau gofal plant i fod yn gynaliadwy ac i ehangu drwy grantiau sydd ar gael, fel Gofal Plant a Chwarae, a Grant Cynnal Refeniw.</li> <li>Cynnig hyfforddiant wedi'i ariannu a'i gymorthdal ar draws y sector.</li> <li>Cefnogi lleoliadau sy'n dymuno ehangu drwy raglen gyfalaf Llywodraeth Cymru.</li> <li>Sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i rieni i ddileu fforddiadwyedd fel rhwystr posibl i ofal plant.</li> </ul>             | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>                                            | <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2025</p> <p>2022- 2023 a pharhaus</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Grantiau wedi'u dyrannu'n briodol i gefnogi cynaliadwyedd, sy'n golygu bod lleoliadau'n dal i fod yn weithredol.</li> <li>Grantiau wedi'u dyrannu'n briodol i gefnogi darparwyr i ehangu i ardaloedd lle mae galw.</li> </ul> |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 6: Cymorth ar gyfer y sector a datblygu'r gweithlu |                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                          |                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|-----------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                 | Mater                                                                                                                                                                                            | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Pwy                                                                                                                                      | Amserlenni                                                          | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|                                                                 |                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Partneriaeth gyda Rheolwr Gweithredol Dechrau'n Deg                                                                                      |                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| 6.3                                                             | Diwygiadau eang i bolisi'r Blynnyddoedd Cynnar ac Addysg yn gofyn am raglen hyfforddi gynhwysfawr i gefnogi'r sector gofal plant i weithredu newidiadau newydd.                                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu â chydweithwyr ar draws tîm y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant i gynhyrchu cynnig hyfforddiant blynnyddol.</li> <li>Gweithio'n agos ag athrawon cynghori i sicrhau bod yr hyfforddiant sy'n cael ei ddilyn gan ymarferwyr yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith gyda phlant a theuluoedd.</li> <li>Ymgynghori â'r sector i sicrhau bod y cynnig hyfforddiant yn esblygu i ddiwallu'r anghenion sy'n dod i'r amlwg yn y sector.</li> </ul>                             | <p>Rheolwr Tîm y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant i arwain</p> <p>Holl swyddogion Tîm y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant i gefnogi</p> | <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2024</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Y cynnig hyfforddiant yn cyd-fynd ag anghenion lleoliadau.</li> <li>Ymarferwyr mewn lleoliadau'n cael eu cyfeirio at sesiynau hyfforddi priodol ac yn eu mynychu.</li> <li>Cyfleoedd hyfforddi a datblygu'n effeithio ar ansawdd darpariaeth mewn lleoliadau ac ar ganlyniadau i blant.</li> </ul>                                                                                                                            |
| 6.4                                                             | Mae gweithwyr newydd yn y proffesiwn gofal plant wedi gostwng yn lleol, ar adeg pan fo llawer o ddarparwyr yn dweud bod recriwtio a chadw staff â chymwysterau addas yn destun pryder sylweddol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cryfhau partneriaeth â Choleg Penybont i gefnogi hyrwyddo cyrsiau gofal plant i'r rhai sy'n gadael yr ysgol.</li> <li>Gwaith partneriaeth gydag ysgolion uwchradd lleol a chynghorwyr gyrfaedd i hyrwyddo'r posibilrwydd o ofal plant i'r rhai sy'n gadael yr ysgol.</li> <li>Mynychu ffeiriau gyrfaedd, gan hyrwyddo gofal plant fel gyrfa bosibl.</li> <li>Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ystyried mentrau recriwtio a chadw i ddenu gweithwyr newydd i'r proffesiwn</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> <p>Swyddog Gwasanaeth</p>                                  | <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2024</p> <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Strategaeth gynhwysfawr ar gyfer tyfu a datblygu'r gweithlu lleol yn cael ei llunio, yn seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth leol a strategaeth genedlaethol.</li> <li>Datblygu cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol.</li> <li>Nodi llwybrau datblygiad gyrfa cliriach ar gyfer y sector.</li> <li>Niferoedd y myfyrwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau hyfforddi gofal plant yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.</li> </ul> |

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2021 – 2022  
Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd

| Blaenoriaeth 6: Cymorth ar gyfer y sector a datblygu'r gweithlu |                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                |                                                                                                   |                                                                                                                                              |
|-----------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                 | Mater                                                                                                                                              | Camau Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Pwy                                                                                                                            | Amserlenni                                                                                        | Canlyniadau Dymunol                                                                                                                          |
|                                                                 |                                                                                                                                                    | <p>gofal plant, ac i gadw'r rhai sydd eisoes mewn swydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i sefydlu cyfleoedd mwy deniadol am ddatblygiad proffesiynol parhaus a datblygu gyrfa yn y sector gofal plant.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                         | Gwybodaeth i Deuluoedd                                                                                                         | <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> <p>2022 – 2024</p>                                                  | - Cyfraddau cadw gwell mewn lleoliadau ac o fewn y sector ei hun.                                                                            |
| 6.5                                                             | Mae yna angen parhaus i ddarparu cymorth adfer ar ôl COVID parhaus i leoliadau, ond mae'n debyg y gwnaiff cyllid i gefnogi hyn leihau'n sylweddol. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gefnogi'r sector gydag unrhyw grantiau sy'n dal i fod ar gael.</li> <li>Ymgynghori â darparwyr i fonitro effaith barhaus COVID-19 ar eu busnes, a chynrychioli'r heriau hyn mewn cyfarfodydd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.</li> <li>Ymgynghori â phartneriaid CWLWM i sefydlu newidiadau esblygol i batrymau gwaith rhieni sy'n dylanwadu ar y farchnad gofal plant a rhannu'r wybodaeth hon gyda darparwyr i'w helpu i gynllunio.</li> </ul> | <p>Rheolwr y Tîm Gofal Plant i arwain</p> <p>Swyddogion y Tîm Gofal Plant</p> <p>Swyddog Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> | <p>2022 – 2023</p> <p>2022 – 2023</p> <p>2022 - 2023 a pharhaus</p> <p>2022 – 2023 a pharhaus</p> | - Unrhyw gyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n briodol i gefnogi cynaliadwyedd, sy'n golygu bod lleoliadau'n parhau i fod yn weithredol. |